# MENTRO
## Mehefin – Awst 2017

Mae Mentro yn fenter sydd wedi ei lunio i helpu paru ffermwyr a thirfeddianwyr sy'n chwilio am gyfle i gamu'n ôl o'r diwydiant gyda newydd ddyfodiaid sy'n chwilio am ffordd i mewn i ffermio. Mae'n arwain pobl ar y ddwy ochr drwy'r camau allweddol sy'n angenrheidiol i ganfod partner busnes posib. Mae pecyn integredig o hyfforddiant, mentora a chefnogaeth busnes yn rhoi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r hyder angenrheidiol i'r rheini sy'n cymryd rhan i'w cynorthwyo i gyflawni eu nod.

**Cam 1 Trosglwyddo Gwybodaeth Greiddiol**

- Gwefan
- Rhwydwaith Arddangos
- Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol
- Grwpiau Trafod
- Erthyglau
- Agrisgôp
- Academi Amaeth

**Cam 2 Cefnogaeth wedi'i Deilwra**

- Cymorthfeydd un-i-un
- Mentora
- Paru
- Hyfforddiant
- Gweithdai

**Cam 3 Sefydlu Menter ar y Cyd**

- Mentora (parhad)
- Gwasanaeth Cynghori (Hyd at €3000 ar gael i bob partneriaeth er mwyn llunio cynllun busnes ac arweiniad cyfreithiol i drafod strwythur arfaethedig y busnes)
- Arweiniad Cyfreithiol


Ers ei lansio, mae **200 unigolyn** wedi mynegi diddordeb yn yr ymgyrch Mentro.
Ar hyn o bryd, mae **173 o gyfranogwyr gweithredol.**
O'r rhain, mae **99 yn 'geiswyr' neu newydd ddyfodiaid** sy'n chwilio am gyfle ac mae **74 yn 'ddarparwyr',** sef ffermwyr neu dirfeddianwyr sy'n darparu cyfle.

## Sgôr RAG

**Coch: Dan y targed** | **Oren: Bron â chyrraedd y targed** | **Gwyrdd: Ar y trywydd iawn**


**Gwyrdd** | Prosiect a digwyddiadau ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed

### Cymhareb Ceiswyr a Darparwyr





**Mae 29 pâr wedi cael eu gwneud**

Mae **32%** o'r rhai sy'n cymryd rhan wedi canfod partner busnes





### Statws




Y cam nesaf fydd i ymgeisio ar gyfer Gwasanaeth Cynghori Cyswllt Ffermio sy'n darparu gwerth hyd at €3000 o gyngor wedi'i ariannu'n llawn er mwyn cytuno ar strwythur busnes a llunio cynllun ar gyfer eu menter grŵp newydd.

### Diweddarwyd y map ar 31.08.2017




Mae **15 partneriaeth** wedi cael mynediad at y gwasanaeth cynghori ac mae **7 menter ar y cyd newydd** wedi'u sefydlu.

## Mae'r Llawlyfr Mentro cyntaf wedi cael ei gyhoeddi!

Mae ein **llawlyfr newydd** yn darparu gwybodaeth ar y camau allweddol sy'n ymwneud â sefydlu menter ar y cyd newydd.




Dysgwch am;


- Pwyso a Mesur a gwerthuso eich asedau
- Dod o hyd i'r partner priodol
- Creu cytundeb cytbwys
- Dewis fframwaith cyfreithiol
- Meddwl hirdymor

Cliciwch yma i ddarllen ein llawlyfr Mentro.


## Arolwg Ceiswyr

O ganlyniad i nifer cyfyngedig o Geiswyr yn ceisio am y cyfleoedd a gynigir, cynhaliwyd arolwg i ddarganfod beth oedd y prif rwystrau. Gofynnwyd iddynt ddweud p'un a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol. Gwnaeth 30 ceisiwr gymryd rhan yn yr arolwg.


*"Mae ansicrwydd Brexit yn fy ngwneud yn llai tebygol i gymryd y cyfleoedd a gynigir trwy Mentro"*





*"Mae gennyf glymau daearyddol at fy ardal leol sy'n cyfyngu pa gyfleoedd gallaf gymryd"*





*"Mae rhesymau a chlymau teuluol yn cyfyngu fy ngallu i gymryd y cyfleoedd a gynigir"*





*"Mae'r diffyg llety gyda'r cyfleoedd yn fy atal rhag ymgeisio amdanynt"*




*"Mae maint y daliadau yn rhy fach ar gyfer fy niben i"*




*"Mae diffyg cyfalaf ar fy rhan i yn cyfyngu fy ngallu i ymgeisio am y cyfleoedd a gynigir"*




## Astudiaethau Achos

Mae dau ffermwr ifanc uchelgeisiol yng Ngogledd Cymru yn hyderus eu bod yn wynebu dyfodol disglair diolch i weledigaeth tirfeddiannwr lleol a threfniant cyd-ffermio a drefnwyd gan raglen Mentro Cyswllt Ffermio. Cliciwch yma i ddysgu mwy.



*"Roedd y taliadau allan yn uchel. Roedd arnaf angen dau aelod o staff llawn amser, a dau arall i helpu yn ystod y cyfnod yna maith dan do, yn ogystal â'r seilwaith angenrheidiol, peiriannau a cherbydau sydd arnoch eu hangen i gynnal busnes hyfyw. Roedd yn glir ei bod yn bryd ailfeddwl am y glaswelltir a rheoli stoc," dywedodd Mr. Fetherstonhaugh.*

---

Mae Rhys Richards sy'n 28 oed yn dangos sut y gall cydweithio rhwng ffermwyr fod o fantais i bob ochr o'r fenter.

Bellach mewn partneriaeth â'r brodyr Nick a David Nichols, sy'n cadw 60 o wartheg bîff sugno croes Limousin a Simmental mewn system organig ar fferm 320 erw Gwernant ger Rhydlewis, Llandysul, mae Rhys wedi cyflawni ei uchelgais o ddechrau ar yrfa o ffermio.

Gyda chymorth gan 'Mentro', lluniwyd cytundeb sy'n darparu tŷ ar y fferm i Rhys yn ogystal ag incwm ac, o fewn pum mlynedd i ddechrau'r cytundeb, bydd wedi sicrhau perchnogaeth o ganran o'r da byw. O ran y brodyr, mae'n golygu y gallan nhw ddirprwyo llawer o'u cyfrifoldebau i Rhys.



*"Doedd arnon ni ddim eisiau gwerthu'r fferm ond roedd y gwaith corfforol yn mynd yn fwy anodd. Mae'r cytundeb hwn wedi lleihau'r pwysau arnom ni yn gorfforol ac yn feddyliol," meddai David.*

*"Rydyn ni'n hynod falch o roi cyfle i rywun newydd ffermio. Mae gan Rhys ddiddordeb personol yn y cynnyrch terfynol felly mae yna ysgogiad iddo reoli'r gwartheg yn dda."*

Cliciwch yma i ddarllen yr erthygl yn llawn.